# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Chwefror 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch gwneud Dydd Gwyl Dewi yn wyliau cyhoeddus yng Nghymru. (WAQ41598)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am hyrwyddo Dydd Gwyl Dewi fel dathliad diwylliannol o Gymru, gartref a thramor. (WAQ41604)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Faint o gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i gydweithwyr yn San Steffan er mwyn trafod nofio am ddim ar gyfer pobl hyn. (WAQ41602)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**David Davies (Mynwy):** Pa ymdrechion y mae'r Gweinidog yn eu gwneud er mwyn sicrhau y gall busnesau bach mewn ardaloedd gwledig fanteisio ar gyswllt band eang. (WAQ41554)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd optroneg i economi Cymru. (WAQ41555)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu hynt y gwaith o fynd i'r afael â'r camau gweithredu a amlinellir yn y Strategaeth Cerdded a Seiclo i Gymru, yn ystod y 12 mis diwethaf. (WAQ41556)

**David Davies (Mynwy):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud er mwyn denu cwmnïau i Sir Fynwy. (WAQ41557)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Dechnegwyr yng Nghymru. (WAQ41558)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y bwriedir ei fuddsoddi yn y dyfodol mewn Technegwyr yng Nghymru. (WAQ41559)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. (WAQ41560)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt y gwaith o ddatblygu'r sector twristiaeth yng Nghymru. (WAQ41561)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun cloddio glo brig Ffos-y-Frân. (WAQ41562)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y bobl a gyflogir yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru. (WAQ41563)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod Blaenau'r Cymoedd ar flaen y gad ym maes yr economi. (WAQ41564)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau cyflogaeth yn Nhor-faen. (WAQ41565)

**Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd er mwyn hyrwyddo gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymysg cwmnïau yng Nghymru. (WAQ41566)

**Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth busnesau o ran cefnogi economi leol canol trefi yng Nghymru. (WAQ41567)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Ar gyfer pob blwyddyn ers 1997, a wnaiff y Gweinidog amlinellu nifer y bobl, ynghyd â chanran y bobl o oed gwaith, a oedd a) yn ddi-waith, a b) heb fod mewn cyflogaeth, ac o blith y rhai nad oedd mewn cyflogaeth, a wnaiff amlinellu y nifer mewn addysg llawnamser a'r nifer a oedd yn derbyn budd-daliadau ynghyd â faint oedd yn derbyn y gwahanol fathau o fudd-daliadau. (WAQ41585)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw cyfradd cyflogau wythnosol gweithwyr gwrywaidd a benywaidd yn Sir Benfro ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac ym mhob blwyddyn ers y sefydlwyd y Cynulliad. (WAQ41595)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl sy'n ddi-waith yn Sir Benfro ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac ym mhob blwyddyn ers y sefydlwyd y Cynulliad. (WAQ41596)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Faint o gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i gydweithwyr yn San Steffan er mwyn trafod teithiau bws am ddim i bobl dros 60 oed. (WAQ41601)

**Elin Jones (Ceredigion):** Faint o drydan Cymru sy'n cael ei gynhyrchu gan ynni gwynt.

(WAQ41610)

**Elin Jones (Ceredigion):** Faint o drydan Cymru sy'n cael ei gynhyrchu gan ynni adnewyddadwy. (WAQ416113).

**Elin Jones (Ceredigion):** Faint o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru sy'n cael ei gynhyrchu gan ynni gwynt. (WAQ41611)

**Elin Jones (Ceredigion):** Faint o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru sy'n cael ei gynhyrchu gan ynni adnewyddadwy. (WAQ41612)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** Pa ysgolion yng Nghymru sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion a beth yw gwerth maethol y brecwast a ddarperir yn yr ysgolion hyn. (WAQ41599)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Faint o gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i chydweithwyr yn San Steffan er mwyn trafod brecwast am ddim mewn ysgolion. (WAQ41603)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba gymorth y mae wedi'i ddarparu ar gyfer cefnogi gwaith ailgylchu gwastraff fferm. (WAQ41582)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r amserlen ar y cyd â gweinyddiaethau datganoledig eraill ar gyfer i) datblygu y safbwynt a gymerir wrth drafod y Rheoliadau Datblygu Gwledig a ii) trafod dyrannu cyllid. (WAQ41605)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** O ran y Rheoliadau Datblygu Gwledig, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae'r ad-daliad a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU yn effeithio ar y swm o Gyllid Ewropeaidd a ddyfernir i Gymru. (WAQ41606)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** O ran y Rheoliadau Datblygu Gwledig, a wnaiff y Gweinidog fynegi sut y mae'n bwriadu cynyddu'r swm o gyllid Ewropeaidd y bydd Cymru yn ei dderbyn drwy'r DU. (WAQ41607)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** O ran y Rheoliadau Datblygu Gwledig, pa ganran y bydd y DU yn ei derbyn, a faint o'r ganran honno fydd yn cael ei dyrannu i Gymru ar gyfer cyllid datblygu gwledig ar ôl 2006. (WAQ41608)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** O ran y Rheoliadau Datblygu Gwledig, pa ddangosyddion fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer pennu'r dyraniad ariannol ar gyfer datblygu gwledig ar ôl 2006 i i) y DU a ii) Cymru. (WAQ41609)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod ffigurau ynghylch MRSA yn cynnwys MRSA mewn meithriniadau gwaed a'r rhai sy'n cael diagnosis yn sgîl swabiau, ac os nad ydynt pam. (WAQ41550)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r gallu i drin pobl o Gymru sy'n dioddef o anhwylderau bwyta yng Nghymru. (WAQ41583)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** O ran yr ad-drefnu newydd ar gyfer galluogi rhai byrddau iechyd lleol i uno ag ymddiriedolaethau'r GIG, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyswllt y cyrff hyn â Llywodraeth Cynulliad Cymru, swyddfeydd rhanbarthol a GIG Cymru. (WAQ41584)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** O ran yr ad-drefnu newydd ar gyfer galluogi rhai byrddau iechyd lleol i uno ag ymddiriedolaethau'r GIG, a all y Gweinidog gadarnhau y bydd yr ad-drefnu newydd yn niwtral o ran cost, ac os bydd pa arbedion y bydd yn rhaid eu pennu er mwyn sicrhau hyn. (WAQ41586)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sefydlu canolfannau preswyl neu i gynnig triniaeth yn y gymuned i bobl sy'n dioddef o anhwylderau bwyta, ac a wnaiff roi amserlen ar gyfer eu gweithredu. (WAQ41578)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfarwyddebau'r Cynulliad i'r ymddiriedolaeth Ambiwlans mewn perthynas â'r angen i ymateb i bob galwad 999. (WAQ41588)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfarwyddebau'r Cynulliad i'r ymddiriedolaeth Ambiwlans mewn perthynas â derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. (WAQ41589)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A ymgynghorwyd â'r sefydliadau proffesiynau iechyd ac o fewn Fforwm Partneriaeth GIG Cymru mewn perthynas â’r bwriad i ddiddymu Proffesiynau Iechyd Cymru. (WAQ41590)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Mewn perthynas â'i benderfyniad i ddiddymu Proffesiynau Iechyd Cymru, a all y Gweinidog gadarnhau y bydd y gwaith o gomisiynu addysg a'r broses sicrhau ansawdd, ynghyd â chylch gwaith comisiynu gweithluoedd pob proffesiwn, yn symud i’r adran asiantaeth newydd gael eu cyhoeddi.

(WAQ41591)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu amserlen yn nodi pa bryd y caiff yr adroddiadau sy'n ymwneud â diogelu pobl sydd â namau difrifol ar y meddwl ac sy'n byw mewn tai â chymorth. (WAQ41592)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar raddau cyfeirio Meddygon Teulu fesul blwyddyn ers 1997. (WAQ41593)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog egluro pa ymdrechion a wnaed i roi gwybod i gyfranwyr yr adroddiadau lleiafrifol, mewn perthynas â diogelu pobl sydd â namau difrifol ar y meddwl ac sy'n byw mewn tai â chymorth, y byddai eu canfyddiadau yn cael eu cynnwys mewn prif adroddiad cyn eu cyflwyno i'r Gweinidog, ac a wnaiff egluro a welodd yr adroddiadau lleiafrifol hynny. (WAQ41594)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog egluro'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod holl ganfyddiadau'r adroddiadau lleiafrifol mewn perthynas â diogelu pobl sydd â namau difrifol ar y meddwl ac sy'n byw mewn tai â chymorth, yn cael eu cynnwys yn adroddiad terfynol y grwpiau gorchwyl a gorffen. (WAQ41581)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynnal archwiliad o wasanaethau diabetes pediatreg yng Nghymru. (WAQ41580)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar therapi rhyw a gwasanaethau cynghori. (WAQ41551)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Faint o therapyddion rhyw a chynghorwyr sy'n gweithio i'r GIG yng Nghymru. (WAQ41552)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Faint o gleifion yng Nghymru sydd ar restr aros ar gyfer gwasanaethau therapi rhyw a faint y mae'n rhaid iddynt aros ar gyfartaledd. (WAQ41553)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Beth oedd cost anfon pobl i Loegr am driniaeth ar gyfer anhwylderau bwyta ar gyfer pob blwyddyn ers 1999. (WAQ41597)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Faint o gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i gydweithwyr yn San Steffan er mwyn trafod gwaredu taliadau presgripsiwn. (WAQ41600)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant y cynllun grantiau bach yn erbyn tanau bwriadol yng Nghymru. (WAQ41568)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chyfrifoldebau mewn perthynas â phlant yng Nghymru. (WAQ41569)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adolygiad o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. (WAQ41570)

**David Davies (Mynwy):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i atal trais yn erbyn menywod. (WAQ41571)

**David Davies (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drais yn erbyn menywod yng Nghymru. (WAQ41572)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfywio cymunedol yn Nwyrain Casnewydd. (WAQ41573)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â gwella'r stoc dai yng Nghymru. (WAQ41574)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dlodi ymysg plant yng Nghymru. (WAQ41575)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sector gwirfoddol yng Nghymru. (WAQ41576)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio yn Nhor-faen. (WAQ41577)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffaith bod tlodi ymysg plant bellach yn rhan o'i chyfrifoldebau yn y Cabinet. (WAQ41578)

**Christine Chapman (Cwm Cynon);** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â chyflogau isel yng Nghymru er mwyn helpu i oresgyn tlodi. (WAQ41579)